Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Awst 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Caplaniaeth y GIG – ystyried y deisebau a ganlyn:

P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol
P-04-474 Cefnogaeth i Wasanaethau Caplaniaeth y GIG

Cafodd y deisebau uchod am ddarpariaeth gwasanaethau caplaniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol eu cyflwyno i'r Cynulliad blaenorol a'u hystyried gan Bwyllgor Deisebau'r Pedwerydd Cynulliad.

Cefndir

Mae testun llawn y ddwy ddeiseb wedi'u hatodi i'r llythyr hwn. Fodd bynnag, dyma'r pwyntiau pwysig a wnaethpwyd gan y ddwy ddeiseb:

- dylid ariannu gwasanaethau caplaniaeth drwy godi arian elusennol yn hytrach na drwy wariant cyhoeddus *(Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol);*

- dylai gwasanaethau caplaniaeth barhau i gael eu hariannu, yn eu hanfod, yn yr un ffordd ag y cânt eu hariannu ar hyn o bryd *(Cefnogaeth i Wasanaethau Caplaniaeth y GIG).*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Ystyriwyd deiseb yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ym mis Chwefror 2013. Cyflwynwyd y ddeiseb sy'n cefnogi gwasanaethau caplaniaeth y GIG mewn ymateb i hyn a chafodd ei hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ym mis Ebrill 2013, pan gytunodd y Pwyllgor y byddai'n trafod y ddwy ddeiseb gyda'i gilydd gan eu bod yn ystyried yr un materion (er eu bod o safbwyntiau gwahanol iawn).

Yn dilyn hyn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y ddwy set o ddeisebwyr, ac yna, ysgrifennodd fy rhagflaenydd fel Cadeirydd y Pwyllgor at Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, i dynnu sylw at bryderon
yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol ynghylch diffiniadau o ofal ysbrydol a chrefyddol ac i ofyn a oedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu gwasanaethau caplaniaeth.

Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at Fyrddau Iechyd Lleol yn gofyn a oes unrhyw ddata mewn perthynas â defnyddio gwasanaethau caplaniaeth wedi'i gofnodi a sut y dyrennir cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn ar draws yr amrywiaeth o safleoedd y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdanynt, a sut yr oeddent yn sicrhau gwasanaeth teg.

Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o ymatebion gan y Byrddau Iechyd Lleol, a chyhoeddwyd yr ymatebion hyn ar ein gwefan, sydd ar gael yn y linc a ganlyn.

http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=6288&Opt=3

Atebodd y Gweinidog ar 26 Gorffennaf 2013 (eich cyfeirnod MD/01729/13) ac ystyriwyd ei ateb yn yr un cyfarfod. Hefyd, cafodd y Pwyllgor ymateb manwl gan ddeisebwyr yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol, ac mae'r ymateb hwn hefyd ar gael yn y linc uchod.

Yn sgil yr ymatebion a gafwyd, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu eto at Mark Drakeford i dynnu sylw at rai o'r materion a gododd wrth ystyried y deisebau.

Yn anffodus, arweiniodd pwysau gwaith arall at oedi yn cymryd y camau hyn ac ar ddiwedd y Cynulliad blaenorol nid oedd y Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog.

Fodd bynnag, mae dechrau'r Cynulliad a'r Pwyllgor newydd, ynghyd â'ch penodiad yn Ysgrifennydd Cabinet newydd dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, yn gyfle i ailystyried rhai o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan y deisebau.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech, fel y Gweinidog newydd â chyfrifoldeb, ystyried y pwyntiau a godwyd yn y ddwy ddeiseb ac a oes unrhyw newidiadau materol wedi bod a allai eich arwain i ailasesu'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau caplaniaeth yn y GIG yng Nghymru, ers i'ch rhagflaenydd ysgrifennu at fy rhagflaenydd i.

Drwy wneud hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech drafod y cwestiynau a ganlyn yn benodol.

Materion i'w hystyried:

Mae deisebwyr yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol yn honni bod dros £9 miliwn wedi'i wario ar ofal crefyddol mewn ysbytai yng Nghymru rhwng 2007-08, pan wnaethant ddechrau casglu gwybodaeth, a 2013-14. Os yw'r ffigurau hyn yn gywir, mae hyn yn awgrymu gwariant blynyddol o tua £1.3 miliwn ar draws y GIG yng Nghymru. Ydych chi'n fodlon bod y lefel hon o gyllid yn gynaliadwy o ystyried y cyfyngiadau presennol ar y gyllideb?

Ymddengys fod rhywfaint o ddryswch ynghylch a yw'n ofynnol i'r GIG yng Nghymru ddarparu gwasanaethau caplaniaeth. A oes unrhyw ofyniad ar Fyrddau Iechyd Lleol i ariannu' gwasanaethau hyn ac, os felly, pa drefniadau sydd ar waith i fonitro eu heffeithiolrwydd a sicrhau bod darpariaeth deg ar draws Cymru?

Ar y llaw arall, ydych chi'n credu bod achos dros wario mwy ar y gwasanaethau hyn neu a ddylid ystyried eu hymestyn i leoliadau gofal eraill, fel lleoliadau gofal sylfaenol a chymdeithasol, fel yr awgrymwyd gan y deisebwyr Cefnogaeth i Wasanaethau Caplaniaeth?

Nid yw'r deisebwyr Caplaniaeth Elusennol yn awyddus i'r gwasanaethau caplaniaeth yn y GIG ddod i ben, ond yn hytrach yn hyrwyddo'r syniad o ariannu'r gwasanaethau hyn drwy roddion elusennol. A yw hyn yn opsiwn y byddech chi'n barod i'w ystyried ac ydych chi'n credu y byddai gwneud hynny yn rhoi gwasanaethau caplaniaeth mewn perygl?

Mae'r deisebwyr sy'n cefnogi Gwasanaethau Caplaniaeth wedi awgrymu os dilynir y llwybr hwn y byddai'n arwain at anghydraddoldebau yn narpariaeth y gwasanaeth, gydag ardaloedd sydd â digonedd o gymunedau ffydd yn cael eu trin yn wahanol i ardaloedd nad oes ganddynt ddigonedd o gymunedau ffydd. Ydych chi'n cytuno â hyn, ac a fyddai o reidrwydd yn beth drwg?

Casgliad

O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r Pwyllgor Deisebau blaenorol ystyried y deisebau hyn, dylai'r Pwyllgor presennol ailystyried rhai o'r materion o sylwedd a nodir ganddynt cyn penderfynu sut i symud ymlaen. Bydd eich ymateb o gymorth sylweddol o ran helpu'r Pwyllgor i ystyried ei gamau nesaf.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at Glerc y Pwyllgor yn *SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru*

Yn gywir

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Atodiad – Testun y deisebau

P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i beidio â defnyddio cyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer gofal crefyddol, ac i weithio gydag arweinyddion crefydd gyfundrefnol i sefydlu ymddiriedolaeth elusennol i ariannu gofal crefyddol yn ysbytai Cymru.

Gwybodaeth ategol:

Mae'r ymgyrch caplaniaeth elusennol yn cynnwys rhwydwaith anffurfiol o ddinasyddion sy'n pryderu y dylid defnyddio pob miliwn o bunnoedd o arian cyhoeddus a ddyrennir i'r GIG yng Nghymru i hyrwyddo iechyd cyhoeddus ac i drin y rheini sydd angen sylw meddygol.

Nid oes gan ein hymgyrch unrhyw arian ac nid oes angen unrhyw arian arnom. Ni chaiff ei noddi gan unrhyw sefydliad arall yng Nghymru na'r tu allan i Gymru. Mae gwasanaethau modern sy'n seiliedig ar y rhyngrwydd yn caniatáu i ni gyfathrebu â'n gilydd ac â'n cynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd.

Mae ein cefnogwyr i gyd wedi gweld dwy ddogfen sydd wedi'u darparu i gefnogi'r ddeiseb hon ac maent yn cytuno â hwy, sef Principles, sy'n nodi ein hysgogiad, a Proposal sy'n nodi ein hachos gyda thystiolaeth ategol a dadl resymegol.

Rydym yn darparu trydedd ddogfen sef Employment, sy'n rhoi tystiolaeth o'r ffordd y caiff yr arian sy'n cael ei dynnu o Gyllideb y GIG ar gyfer gwasanaethau caplaniaeth ysbytai ei wario ar hyn o bryd.

Cynigiwyd y ddeiseb gan: Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

P-04-474 Cefnogaeth i wasanaethau caplaniaeth y GIG

Rydym yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol gwasanaethau caplaniaeth ysbytai o ran darparu gofal ysbrydol o fewn y GIG yng Nghymru ac yn cydnabod y gwaith aruthrol y mae'r gwasanaeth caplaniaeth yn y GIG yn ei ddarparu.

Mae'r gwasanaeth hwn yn chwarae rhan bwysig yn lles ysbrydol cleifion a staff y GIG, nid yn unig i'r rheini sydd â chysylltiad crefyddol ond hefyd i eraill nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â grŵp crefyddol. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i barhau â'i ymrwymiad i ariannu gwasanaethau caplaniaeth ysbytai ac i ehangu manteision gwasanaethau caplaniaeth i leoliadau gofal eraill, gan gynnwys lleoliadau gofal sylfaenol a chymdeithasol. *Cynigiwyd y ddeiseb gan: Jim Stewart*